O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 1426 (Cy. 170)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r De-orllewin o Frynsaithmarchog, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*7 Mehefin 2011*
Yn dod i rym	*20 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Mehefin 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r De-orllewin o Frynsaithmarchog, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Mehefin 2011 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr y darn o'r gefnffordd ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o Gefnffordd yr A494 Dolgellau – Man i'r De o Benbedw, i'r de-orllewin o Frynsaithmarchog yn Sir Ddinbych, sy'n ymestyn o bwynt 250 metr i'r gorllewin o Frynsaithmarchog hyd at bwynt 110 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth at Fferm y Plasau.